**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 26 Chwefror 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 5 Mawrth 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 11 Mawrth 2024 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Nia Jeffreys
Dirprwy Arweinydd y Cyngor

---

**PWNC – Gweithredu'r cynllun 'Potensial sgiliau a gwaith pobl Gwynedd'**

---

**PENDERFYNIAD**

Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned i weithredu'r cynllun 'Potensial sgiliau a gwaith Pobl Gwynedd' fel a amlinellir yn adran 3.4. isod, gan gynnwys gwirio unrhyw ofynion i gydymffurfio gyda'r cytundeb ariannu i'r Adrannau Addysg a'r Adran Oedolion.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

---

# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD
# ADRODDIAD SWYDDOG

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod Cabinet: | Y Cynghorydd Nia Jeffreys<br>Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros faterion gweithredol economi a phrif rhaglenni trawsadrannol |
| Enw a theitl awdur yr adroddiad: | Kelvin Roberts<br>Arweinydd Rhaglen Cyflogadwyedd, Gwasanaeth Datblygu'r Economi, Adran Economi a Chymuned |
| Dyddiad y cymerwyd y penderfyniad : | 26 Chwefror 2024 |
| Llofnod yr Aelod Cabinet : |  |

**PWNC: Gweithredu'r cynllun 'Potensial sgiliau a gwaith pobl Gwynedd'**

## 1. Argymhellion ar gyfer y Penderfyniad:

1.1. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned i weithredu'r cynllun 'Potensial sgiliau a gwaith Pobl Gwynedd' fel a amlinellir yn adran 3.4. isod, gan gynnwys gwirio unrhyw ofynion i gydymffurfio gyda'r cytundeb ariannu i'r Adrannau Addysg a'r Adran Oedolion.

## 2. Rhesymau dros yr angen am y Penderfyniad:

2.1. Ymrwymodd Cabinet 20 Gorffennaf 2023 (Eitem 5) £21,352,966 o arian Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) y DG i 38 o gynlluniau. Roedd y cynllun 'Potensial sgiliau a gwaith pobl Gwynedd' yn un o'r ceisiadau gymeradwywyd.

2.2. Bydd y cynllun yn derbyn bron i £700,000 o arian SPF. Mae angen penderfyniad i awdurdodi gweithredu'r cynllun.

## 3. Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:

3.1. Mae gwasanaethau ar draws y Cyngor yn cyfrannu'n gadarnhaol at helpu pobl Gwynedd i gyflawni i'r gorau o'u gallu o fewn byd gwaith. Mae hyn yn elwa'r unigolyn ac o fudd i'r gymuned. Mae pwysigrwydd sicrhau fod

pawb yn cyflawni eu potensial wedi ei flaenoriaethu yn Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 o fewn y maes blaenoriaeth 'Gwynedd Lewyrchus'.

3.2. Mae'r Adran Economi a Chymuned eisoes yn darparu detholiad o gymorth byd waith dan y faner 'Gwaith Gwynedd'. Mae'r tîm Gwaith Gwynedd hefyd yn cydlynu ymdrechion o fewn y maes er mwyn hwyluso mynediad ac adnabod bylchau.

3.3. Gyda dyfodiad arian SPF roedd cyfle i ddenu pres i gyfarch rhai o'r bylchau yn y darpariaeth presennol. Mewn ymateb, datblygodd yr Adran Addysg, yr Adran Oedolion a Gwaith Gwynedd y cynllun 'Potensial sgiliau a gwaith pobl Gwynedd'.

3.4. Bydd y cynllun yn darparu:

a) help ychwanegol i bobl ifanc sydd mewn peryg o beidio fod â chynllun ar gyfer gadael yr ysgol, iddynt symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gwaith. (Adran Addysg);

b) cymorth i pobl ifanc sydd ar y cyrion o fod yn segur i'w paratoi ar gyfer addysg, hyfforddiant, neu eu rhag baratoi ar gyfer cefnogaeth i waith. (Adran Addysg);

c) help ychwanegol i oedolion gydag anghenion dysgu ychwanegol, anabledd neu anabledd dysgu fynd i weithio ac aros yn y gwaith (Adran Oedolion); ac,

ch) cymorth i bobl yn swyddi sy'n talu cyflog isel gael sgiliau a chymwysterau newydd fydd yn eu helpu i ennill cyflog gwell (Gwaith Gwynedd).

3.5. Mae cais SPF y cynllun wedi llwyddo gan sicrhau bron i £700,000.

**4. Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

4.1. Dim

**5. Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

5.1. Prif Swyddog Cyllid:

*"Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir. Bydd yr Adran Gyllid yn cefnogi'r swyddogion perthnasol gyda materion ariannol wrth i'r cynllun symud yn ei flaen."*

5.2. Swyddog Monitro:

*"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."*

5.3. Aelod(au) Lleol:

Ddim yn fater lleol